

Rebecca Evans AC

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

At bob ymgeisydd yn yr etholiadau i
Gynghorau Sir, Cynghorau Bwrdeistref Sirol a
Chynghorau Cymuned a Thref



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

17 Mawrth 2022

Annwyl Gydweithiwr,

Hoffwn eich llongyfarch ar eich penderfyniad i sefyll fel ymgeisydd yn yr etholiadau llywodraeth leol sydd i'w cynnal yn fuan.

Wrth benderfynu sefyll mewn etholiad, byddwch eisoes wedi cydnabod y cyfraniad gwerthfawr y gall cynghorwyr ei wneud i wella bywydau a phrofiadau unigolion o fewn cymunedau lleol. Rydym yn awyddus i'n cynghorau fod yn gynrychiadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Po fwyaf yw'r amrywiaeth o gynghorwyr, gellir ystyried ystod ehangach o safbwyntiau o ran y modd y mae cynghorau yn cynllunio ac yn cyflawni gwasanaethau.

Disgwyliwn safon uchel o ymddygiad gan ymgeiswyr. Dyma'r rheswm y bydd angen i bob ymgeisydd sy'n cael eu hethol ddatgan y byddant yn cydymffurfio â chod ymddygiad moesegol eu Cynghorau cyn y gallant ymgymryd â'u swydd etholedig.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi bwrw ati â'r gwaith o annog pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i sefyll i gael eu hethol mewn etholiadau llywodraeth leol. Er mwyn ein helpu i fesur y cynnydd sy'n cael ei wneud, mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol gwblhau arolwg o'r ymgeiswyr ym mhob etholiad llywodraeth leol. Nod yr arolwg yw sicrhau gwybodaeth ynghylch y gronfa o bobl sy'n cymryd rhan yn weithredol i gael eu hethol.

Er nad yw'n ofynnol ichi gwblhau'r arolwg, naill ai yn gyfan gwbl neu ran ohono, rwy'n eich annog chi i wneud hynny. Dim ond drwy eich cefnogaeth o ran cwblhau'r arolwg y gallwn gael dealltwriaeth glir o'r amrywiaeth o bobl sy'n ymgeisio i ddod yn gynghorwyr.

Ar gyfer yr etholiad hwn, bydd Data Cymru yn cynnal arolwg ar ran awdurdodau lleol yng Nghymru. Bydd y data a gesglir ganddynt yn cael eu rhannu â phob awdurdod lleol. Bydd Llywodraeth Cymru yn cael set o ddata dienw ar gyfer Cymru gyfan a bydd adroddiad sy'n seiliedig ar y canlyniadau yn cael ei gyhoeddi.

Am ragor o wybodaeth ac i gwblhau'r arolwg, ewch i:

www.smartsurvey.co.uk/s/YmgeiswyrYngNghymru_CandidatesInWales_544/



Bydd yr wybodaeth a gesglir yn ein helpu i adolygu a datblygu polisiau er mwyn ehangu cyfranogiad yn y broses ddemocrataidd. Rwy'n eich annog i gyd i ymateb, boed hynny am y tro cyntaf neu os gwnaethoch chi gwblhau'r arolwg ar gyfer yr etholiadau blaenorol – mae eich cymorth yn amhrisiadwy inni. Os hoffech chi gopi papur o'r arolwg neu os oes gennych unrhyw anghenion hygyrchedd, cysylltwch â Data Cymru ar surveys@data.cymru neu 029 2090 9500.

Yn gywir,

Rebecca Evans AS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol